

10 Egwyddor

DIM BWLIO, AFLONYDDU NA GWAHANIAETHU

1 Mae pawb yn gyfrifol am **greu a chynnal gweithle cynhwysol** sy'n gadarnhaol ac yn gefnogol.

2 Rydym yn cydnabod y **gallai aflonyddu neu iaith neu ymddygiad gwahaniaethol fod yn anghyfreithlon** o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

3 **Byddwn yn mynd i'r afael yn benodol â hiliaeth a phob math arall o wahaniaethu a rhagfarn,** eu hamlygiadau a'u heffeithiau, ac yn ceisio eu hatal.

4 Mae'r rhai ohonom sy'n gyflogwyr **yn derbyn ein cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** a Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.

5 Nid ydym yn goddef bwlio, aflonyddu na gwahaniaethu ar unrhyw sail, a byddwn **yn sicrhau bod prosesau ar waith ar gyfer rhoi gwybod am y materion difrifol hyn ac ymchwilio iddynt.**

ar gyfer Gweithleoedd Diogel

6 Rydym yn cydnabod y gall bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu gael effeithiau niweidiol sylweddol ar gynhyrchiant ac ar iechyd a lles corfforol a meddyliol tymor hir y bobl yr effeithir arnynt a byddwn yn gweithio i'w dileu. Bydd hyn yn golygu **darparu amddiffyniad digonol i achwynwyr a dioddefwyr,** ac, os canfyddir bod bwlio, aflonyddu neu wahaniaethu wedi digwydd, **cymryd camau priodol yn erbyn y troseddwyr.**

7 Rydym yn gwerthfawrogi cynhwysiant, yn gwerthfawrogi gwahaniaeth, yn annog hunan-addysg ac yn ystyried pobl yn gyfartal heb ragfarn na ffafr. **Rydym yn meithrin perthnasoedd yn seiliedig ar barch y naill at y llall.** Byddwn i gyd yn gweithio i roi a derbyn adborth mewn ffordd adeiladol, gan wybod y bydd hyn yn gwella creadigrwydd a chynhyrchiant.

8 Rydym yn deall y gall rhoi gwybod am fwlio, aflonyddu neu wahaniaethu fod yn frawychus. Os bydd unrhyw un yn rhoi gwybod am unrhyw ymddygiad o'r fath, byddwn yn ymdrechu i **wneud y broses o adrodd yn glir ac yn syml, ymchwilio yn wrthrychol a pharchu cyfrinachedd** os yw hynny'n bosibl. Ni ddylai unigolion sydd wedi gwneud cwynion neu gymryd rhan yn ddiidwyll mewn unrhyw ymchwiliad i fwlio, aflonyddu neu wahaniaethu ddioddef unrhyw fath o ddial neu erlid o ganlyniad.

9 Byddwn yn **parchu urddas a gwahaniaethau ein gilydd,** waeth beth yw lefel ein rôl mewn sefydliad.

10 Wrth i ni weithio'n barhaus i ddeall, datblygu a chyflwyno'r gwaith hwn yn well, mae'r rhai ohonom sy'n **gyflogwyr yn ymrwymo i dalu i weithwyr proffesiynol sydd â phrofiad byw a/neu wybodaeth arbenigol** yn y meysydd hyn i'n cynghori.

a Chynhwysol

